

## Canllawiau Busnes Cymdeithasol Cymru: Ymdopi â chyfnodau clo yn y dyfodol

**Crynodeb:** Roedd y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth yn ddigynsail i bawb ohonom ar lefel bersonol a phroffesiynol. O fusnesau ac arweinwyr busnes yn gorfod addasu ac ymateb dros nos i sut y gallent ymdopi mewn sefyllfa anghyfarwydd, roedd cyfyngiadau symud yn arwain at benderfyniadau a heriau mawr. Os oedd eich busnes yn dal i weithredu, masnachu llai, wedi gorfod gwednewid neu gau am gyfnod - bydd y gwersi a ddysgwyd yn y cyfnod hwnnw yn eich paratoi a'ch tywys yn ystod cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol yn y dyfodol.

Gyda chynnydd mewn achosion o'r haint, ac achosion o Covid yn edrych yn debygol, mae'n anochel y bydd cyfyngiadau symud pellach, boed yn lleol neu'n genedlaethol. Bydd cael cynllun cyfyngiadau symud ar waith ac yn barod i'w ddefnyddio yn ystod unrhyw gyfyngiadau symud yn y dyfodol yn galluogi'ch busnes cymdeithasol i ymdopi â'r cyfnod a lliniaru unrhyw aflonyddwch. Bydd natur mynd a dod y cyfyngiadau symud yn tarfu ar eich taith tuag at adferiad, ond gallai ei gynnwys yn eich cynlluniau risg a meddwl am gynlluniau wrth gefn effeithiol wneud y daith yn fwy esmwyth nag o'r blaen i'ch staff, eich cwsmeriaid a busnes cymdeithasol yn gyffredinol.

### Pethau i'w hystyried:

- Meddyliwch sut y gwnaethoch weithredu yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Mawrth. Dadansoddwch beth wnaeth weithio'n dda a beth na wnaeth.
- Ystyriwch pe baech yn wynebu cyfyngiadau symud eto – beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol?
- Sut fydddech chi'n gweithredu'ch busnes cymdeithasol mewn cyfnod arall o gyfyngiadau symud? Meddyliwch am y canlynol:

### CYNHYRCHION / GWASANAETHAU:

- Pa gynhyrchion neu wasanaethau fydddech chi neu y gallech chi eu cynnig mewn cyfnod clo arall?
- Meddyliwch am y gwasanaethau roeddech chi'n eu cynnig ar ddechrau'r flwyddyn, yn ystod y cyfyngiadau symud ac wedi hynny? Oes unrhyw gynhyrchion neu wasanaethau newydd, gwahanol neu hybrid y gallech chi eu cynnig mewn cyfnod clo newydd?
- Allech chi weddnewid neu arallgyfeirio'r hyn rydych chi'n ei gynnig?
- A newidiodd y galw am eich cynnyrch/gwasanaeth yn ystod y cyfnod clo?
- Sut fyddwch chi'n darparu'ch cynnyrch/gwasanaeth os oes cyfyngiadau ar ble gallwch chi weithredu?



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**

# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



### ADNODDAU:

- Faint o staff fydddech chi eu hangen i weithredu mewn cyfnod clo arall?
- A fydd gennych chi staff ar gael neu a fydd cyfrifoldebau gofalu neu warchod i'w hystyried? Sut fyddwch chi'n bodloni'r lefelau staffio sydd eu hangen?
- Ystyriwch ymgysylltu â staff a phwysigrwydd cyfathrebu â staff yn ystod cyfnodau anodd i gael mwy o staff ar eich ochr a mwy o ymgysylltu.
- <https://www.hrzone.com/lead/future/is-your-business-prepared-for-the-potential-of-another-lockdown>
- Gofynnwch am adborth staff - holwch weithwyr a gwirfoddolwyr am eu hawgrymiadau ar sut y gallwch chi weithredu yn ystod cyfnod clo arall a sut y gallant wneud pethau'n wahanol neu helpu.
- Pa adnoddau a chymorth y bydddech chi eu hangen i allu gweithredu'n effeithiol?

### SAFLE:

- Fydddech chi'n gweithredu o'ch safle neu'n dosbarthu o bell?
- Fyddai cwsmeriaid a staff yn teimlo'n ddiogel yn dod ar eich safle?
- A fydd cwsmeriaid a staff yn gallu dod i'ch safle?
- Pa gyfyngiadau fydddech chi'n eu hwynebu ac a oes ffyrdd o'u lliniaru?
- A fydd angen i chi wneud unrhyw addasiadau ychwanegol neu newid oriau agor?
- Edrychwch i weld a fydd eich yswiriant yn yswirio unrhyw newid mewn gweithrediad.

### CYLLID:

- Sut allai cyfnod clo arall effeithio ar eich cyllid?
- Dadansoddwch sut y gallai'ch incwm a'ch gwariant newid gan ddefnyddio profion darogan a straen i ddatblygu neu addasu'ch rhagamcan llif arian <https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/rheoli-eich-arian/rhagamcan-llif-arian>
- Cyfrifwch a oes gennych chi ddigon o arian/ incwm ar gael i dalu'ch gorbenion a threuliau gweithredu i ddal ati i fasnachu?
- Ystyriwch ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel hwb ariannol i hybu'ch incwm? Neu cysylltwch â'ch banc i drafod cyfleusterau gorddrafft neu fenthycia tymor byr. Cysylltwch â chyllidwyr presennol i weld a allant gynnig cymorth ychwanegol.
- Cysylltwch â chyflenwyr i drafod ymestyn y cyfnod talu a holi am unrhyw anfonebau sydd heb eu talu.
- Nodi a oes gennych ddiffyg ac ymchwiliwch a oes cynlluniau cymorth allanol y gallwch fanteisio arnynt fel benthyciadau a grantiau.

### CYFATHREBU:

- Cynlluniwch sut byddwch chi'n ymgysylltu â staff a chwsmeriaid yn ystod cyfnod clo arall.
- Gofynnwch i'ch staff a chwsmeriaid am adborth ar sut maent yn meddwl y gallech chi addasu yn ystod cyfnod clo.
- Gofalwch eich bod yn diweddarau'ch gwefan a'ch cyfryngau




UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**



cymdeithasol yn rheolaidd gyda manylion unrhyw newidiadau i wasanaethau ac oriau gweithredu.

- Atgoffwch eich cwsmeriaid/rhanddeiliaid eich bod yn dal i fod yma ac yn gallu eu cynorthwyo yn ystod y cyfnod clo newydd.
- Rhannwch eich stori, defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol a'ch gwefan fel adnodd, gan dynnu sylw at ba wahaniaethau y mae'ch busnes cymdeithasol yn ei wneud i'r gymuned a'i ddefnyddwyr gwasanaethau / cwsmeriaid fel y trafodir mewn rhifyn blaenorol o'r canllawiau hyn <https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/08/Journey-To-Reopening-Stage-2-v1.pdf>
- Addaswch neu diwygiwch unrhyw gynlluniau cyfathrebu sydd gennych chi ar waith i adlewyrchu'r newidiadau. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys adran ar gyfyngiadau symud, a fydd yn eich tywys drwy beth a sut i gyfathrebu os ydych chi'n mynd yn ôl i gyfnod clo. <https://knowhow.ncvo.org.uk/campaigns/communications/communications-strategy>
- Sicrhewch eich bod yn derbyn diweddariadau'n gyson am unrhyw newidiadau neu gyhoeddiadau gan y llywodraeth a fydd yn effeithio ar sut rydych chi'n gweithredu. <https://llyw.cymru/cyfnod-clo-lleol>
- Cadwch lygaid ar wefan eich awdurdod lleol am ganllawiau ar unrhyw gyfnodau clo lleol a'r goblygiadau ar gyfer busnesau yn yr ardal honno. Gall pob ardal fod yn wahanol ac efallai y bydd angen i chi addasu sut rydych chi'n gweithredu ledled gwahanol ardaloedd os oes gennych chi safle / gweithgarwch mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol.
- Os cyhoeddir cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol, cadwch lygaid ar y canllawiau diweddaraf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Llywodraeth a diweddarach eich asesiadau risg yn unol â hynny. Cofiwch gyfathrebu'r newidiadau hyn ac unrhyw ragofalon diogelwch a ychwanegir i'ch staff a'ch cwsmeriaid.
- Gall cyfathrebu pa ragofalon diogelwch rydych chi'n eu cymryd wella hyder defnyddwyr.

### Pwyntiau Gweithredu:

- Adolygwch sut wnaethoch chi weithredu yn ystod y cyfnod clo diwethaf. Dadansoddwch beth weithiodd yn dda a beth wnaeth ddim.
- Datblygwch gynllun clo a fydd yn cynnwys manylion sut y byddwch chi'n gweithredu yn ystod cyfnod clo arall. Dylai ystyried beth, lle a sut. Yr hyn y byddwch yn ei gynnig, ymhle y byddwch yn ei gynnig a sut y byddwch yn ei gynnig o ran staffio a'r adnoddau sydd eu hangen.
- Cyfrifwch sut y bydd cyfnod clo yn effeithio ar eich cyllid a nodwch unrhyw ddiffygion mewn incwm.
- Ymchwiliwch i'r cymorth ariannol sydd ar gael, gan gynnwys cynlluniau arbenigol ac opsiynau cyllid.
- Os ydych chi'n wynebu cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol, sicrhewch eich bod yn derbyn diweddariadau rheolaidd am unrhyw newidiadau neu gyhoeddiadau gan y llywodraeth a fydd yn effeithio ar sut y byddwch chi'n gweithredu.
- Diweddarwch eich asesiadau risg ar sail hynny.




**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**

# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



Rhestr wirio:	Cwblhawyd	Dyddiad	Gan	Dyddiad adolygu arfaethedig
Adolygwch sut y gwnaethoch weithredu yn ystod y cyfnod clo diwethaf.				
Datblygwch gynllun clo.				
Cyfathrebwch newidiadau â staff a chwsmeriaid.				
Nodwch unrhyw ddiffygion mewn incwm ac ymchwil/gwnewch gais am gymorth ariannol.				
Cadwch lygad am unrhyw gyfnodau clo a chyfyngiadau lleol neu ranbarthol.				

### Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

**Llywodraeth Cymru:** <https://llyw.cymru/coronafeirw>

Am fanylion mesurau lleol, ewch i: <https://llyw.cymru/cyfnod-clo-lleol>

Canllawiau ar gyfer cyflogwyr: <https://llyw.cymru/busnesau-a-chyflogwyr-coronafeirws>

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** [https://www.hse.gov.uk/coronavirus/index.htm?utm\\_source=hse.gov.uk&utm\\_medium=refferal&utm\\_campaign=coronavirus&utm\\_term=banner-2&utm\\_content=home-page-banner](https://www.hse.gov.uk/coronavirus/index.htm?utm_source=hse.gov.uk&utm_medium=refferal&utm_campaign=coronavirus&utm_term=banner-2&utm_content=home-page-banner)

**Ffynonellau Cyllid:** Cronfa gwydnwch trydydd sector – Cam 2, a weithredir gan CGGC <https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/cronfa-gwydnwch-trydydd-sector-cymru/>

Mae ffynonellau cyllid pellach ar gael yma: <https://cy.funding.cymru/> a <https://www.goodfinance.org.uk/covid-19-resource-hub-charities-social-enterprises>

**Nodyn cyfarwyddyd lleihau llif arian:** <https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/05/COVID-19-guidance-note-Stripping-Back-Your-Cashflow-Eng-v4.pdf>

**Hwb Covid Busnes Cymdeithasol Cymru:** <https://wales.coop/covid-19-hub/>

Canllawiau defnyddion ar ailagor eich busnes cymdeithasol: <https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/06/Journey-To-Reopening-Stage-1-v1.1-final-eng.pdf>

<https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/08/Journey-To-Reopening-Stage-2-v1.pdf>

**Paratoi ar gyfer cyfnod clo arall:** <https://www.businessgrowthhub.com/coronavirus/resources/2020/07/preparing-your-business-for-a-new-lockdown-what-you-need-to-know>

Am ragor o gymorth ac i siarad un i un gyda'n Cynghorwr Busnes, ffoniwch ni ar 0300 111 5050 neu e-bostiwch [sbwenquiries@wales.coop](mailto:sbwenquiries@wales.coop) a gallwn drefnu ein bod yn eich ffonio'n ôl.




**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**

# Busnes Cymdeithasol Cymru

# Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**